



Annwyl rieni / Gofalwyr,

Gobeithio eich bod yn parhau i gadw'n iach ac yn ddiogel. Mae trefniadau dysgu o bell yn parhau. Cynigir amrywiaeth o weithgareddau gan yr athrawon drwy gyfrwng cyfrifon Hwb y plant a Google Classroom. Hoffem barhau i annog y disgyblion i fentro ar y tasgau fyddwn ni fel staff am ei awgrymu i'r plant, ac wrth gwrs, nid yn eu gorfodi i gwblhau rhestr o weithgareddau pob dydd. Rydym wedi cymeryd hyn mewn i ystyriaeth wrth gynllunio a gosod y tasgau ar gyfer oedrannau penodol. Hefyd, **nid oes disgwyl i ddilyn unrhyw amserlen bendant ar gyfer y gweithgareddau gan ein bod yn dymuno rhoi hyblygrwydd i chi fel teuluoedd i gyflawni'r tasgau o fewn amserlen sy'n gweithio i chi.** Cofiwch hefyd nid oes rhaid i'r plant ddefnyddio cyfrwng TGCh i gwblhau pob gweithgaredd, a gall rhain gael ei cwblhau ar bapur. Rydym hefyd yn annog pob disgybl i fod mor actif â phosibl yn feddyliol ac yn gorfforol bob dydd ond yn deall y gallai hyn fod yn anodd mewn realiti.

Trefniant e.bostio a chasglu – Rydym wedi cynnal trefniant e.bostio a chasglu dros yr wythnos nesaf. Bydd cyfle i chi gasglu unrhyw adnoddau syml yr hoffech i'ch helpu gyda threfniadau dysgu o bell yn ystod yr wythnos sydd yn cychwyn 8.6.20. Fel y drefn blaenorol, **bydd angen i chi fod wedi cyfathrebu gyda'r athro/awes ddosbarth drwy e.bost am unrhyw adnoddau,** (*dylid gwenud hyn cyn 3.30 ar y diwrnod blaenorol*) a bydd rhain yn cael ei gadael yn y bocs tu allan i ddrws y neuadd ar yr amseroedd penodol ar gyfer pob dosbarth fel y nodir isod.

Unwaith eto, bydd yna focs hefyd yn cael ei adael yn yr un lleoliad wedi ei labelu gyda'r geiriau **'Drop-off'**. Byddem yn gwerthfawrogi i unrhyw lyfrau darllen yr ysgol yr ydych wedi ei benthgyn barod ac wedi gorffen gyda nhw, i gael ei dychwelyd i'r bocs yma, fel bod rhain ar gael i eraill.

Dyma fydd yr amseroedd y bydd rhaid cadw atynt.

Dosbarth/Class	Dyddiad / Date	Amser / Time
Miss C. Darlington Bl.3&4 / Yr.3&4	8.6.20	10.45 – 12.00
Mrs M. Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	8.6.20	1.15 - 2.30
Miss M. Davies Bl.1&2 / Yr.1&2	9.6.20	10.30-11.15
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	9.6.20	12.00-1.15
Mrs S. Jones Bl.1&2 / Yr.1&2	9.6.20	2.00-3.15
Miss A. Morris Nursery / Reception	10.6.20	10.45 – 12.00
Miss Ch. Williams Bl.3&4 / Yr.3&4	10.6.20	1.15-2.30
Miss D. Dempsey Bl.1&2 / Yr.1&2	11.6.20	10.45-12.00
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	11.6.20	1.15-2.30
Miss L. Lewis Reception/Derbyn	12.6.20	10.45-12.00
Mr D. Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	12.6.20	1.15-2.30

Yn olaf, mae'n debyg fod y mwyafrif ohonoch yn ymwybodol o'r newyddion diweddaraf ynglyn ac ail-agor yr ysgol i'r disgyblion yn dilyn y cyhoeddiad gan y Gwenidog Addysg. Bydd yr ysgol yn ail-agor ar y 29ain o Fehefin, gyda diwedd y tymor ar ddydd Gwener Gorffennaf y 24ain. Er hyn, bydd yr amserlen wythnosol yn dra wahanol i fel yr oedd cyn i'r ysgol gau ar ddiwedd Mawrth. Bydd cryn dipyn o waith cynllunio ar gyfer hyn dros yr wthnosau nesaf. Byddwn yn eich diweddarau ac yn eich hysbysu gyda'r wybodaeth fydd yn berthnasol i chi ac i'r plant.

Unwaith eto hoffwn eich hatgoffa i gysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglyn a'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol. Diolch yn fawr.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel.

Rhodri Jones

Pennaeth/Headteacher
Ysgol I D Hooson